



**Ymrwymiad yr RSPB i  
Gydraddoldeb, Amrywiaeth  
a Chynhwysiant**

**The RSPB's Equality,  
Diversity, and Inclusion  
(EDI) commitment**

Mae ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sylfaen i'n gwaith i achub natur.

Rydym mewn argyfwng natur a hinsawdd, ac rydym yn achub natur drwy bobl: **pob person.**

---

Our commitment to EDI underpins the work we do to save nature.

We are in a nature and climate emergency and we save nature through people: **all people.**



## Rydym yn credu bod natur yn hanfodol i bobl.

Dylai bawb gael mynediad cyfartal at fywyd gwyllt, a'r cyfle i deimlo'n gysylltiedig â hynny. Dylai pawb gael profi buddion iechyd a lles natur. Rydym am weld byd sy'n gyfoethocach mewn natur, lle gall pawb brofi'r hapusrwydd mae'n ei roi. Rydym yn wynebu argyfwng natur a hinsawdd, ac mae ein hachos yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen i ddyfodol y Ddaear.

**Rhaid i'n mudiad fod yn gynhwysol i bawb.**

---

## We believe nature is essential for people.

Everyone should have equal access and the opportunity to feel connected to wildlife. Everyone should be able to experience the health and wellbeing benefits of nature. We want to see a world richer in nature where everyone can experience the joy it brings. We're facing a nature and climate emergency and our cause has never been more relevant to the Earth's future.

**Our movement must be inclusive for everyone.**



## Rydym yn cydnabod bod rhwystrau'n bodoli rhag cael mynediad at natur.

Rydym yn gwybod bod y sector cadwraeth yn un o'r sectorau lleiaf amrywiol o ran ethnigrwydd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn rhan ohonynt. Rydym yn cydnabod y rhwystrau hanesyddol, cymdeithasol a sefydliadol y gall grwpiau eu hwynebu wrth gyrchu natur. Rydym yn awyddus i gael gwared ar y rhwystrau hyn, a meddwl am ein rôl o ran eu creu.

Rydym yn derbyn bod angen i ni wrando a dysgu os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau mewn gwirionedd.

**Dim ond gyda'n gilydd y gallwn greu byd sy'n gyfoethocach o ran byd natur.**

---

## We recognise barriers to accessing nature.

We know that the conservation sector is one of the least ethnically diverse. We're not currently reflective of the communities that we are part of. We recognise the historical, societal, and institutional barriers that groups can face when accessing nature. We want to work together to remove these barriers and reflect on our role in creating them.

We acknowledge our need to listen and learn if we are to genuinely fulfil our ambitions.

**Only together can we create a world richer in nature.**



## Rydym wedi ymrwymo i newid.

Byddwn yn datblygu RSPB i fod yn fudiad lle bydd pawb yn ffynnu, yn byw ac yn hybu'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu. Lle bydd pobl yn falch, ac yn cael cefnogaeth i fod yn nhw eu hunain. Lle caiff pob cyfraniad ei werthfawrogi. Lle bydd pawb yn cael llais i greu ein dyfodol, gan ddatblygu'r RSPB fel lle gwych i weithio a gwirfoddoli. Dyma ein haddewid i'n pobl. Byddwn yn cadw ato.

---

## We are committed to change.

We will build an RSPB where everyone thrives, lives and champions our shared values. Where people are proud and supported to be themselves. Where all contributions are valued. Where everyone has a voice in creating our future, developing the RSPB as a great place to work and volunteer. This is our promise to our people. We'll hold ourselves accountable to it.



## Rydym wedi...

- Gwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein strategaeth ar gyfer 2030, gan gydnabod ei fod yn un o'r meysydd craidd lle rydym am gynyddu ein hymdrechion a'n hefffaith.
- Canolbwyntio ar sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y rhyweddau o ran cydraddoldeb mewn swyddi uwch. Ar hyn o bryd, mae 50% o'n Hymddiriedolwyr a'n huwch arweinwyr yn uniaethu'n fenywod.
- Myfyrio, dadansoddi a nodi meysydd y mae angen eu gwella. Mae hyn yn cynnwys nodi cynlluniau i sicrhau newid: megis gweithio i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein gweithlu, gan gynnwys ein gwaith gyda sefydliadau fel Full Colour.
- Cydnabod bod angen i ni fod yn fwy tryloyw ac atebol. Rydym bellach yn mynd ati i gyhoeddi gwybodaeth am ein hymrwymiad a'n cynnydd o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy ein sianeli cyfathrebu, gan gynnwys ein Hadroddiad Blynyddol.
- Gweithio ar y cyd â sefydliadau cadwraethol eraill i wneud newid ystyrlon, gan gynnwys ymuno â [map llwybr ethnigrwydd y WildLife and Countryside Link](#).
- Parhau i ddiwygio ein harferion recriwtio, drwy adolygu ein fframwaith presennol, ac archwilio a threialu prosesau newydd.
- Adolygu a dechrau'r broses o wella hygyrchedd yn ein gwarchodfeydd natur.

**Ac rydym yn awyddus i wneud cymaint mwy.**

## We have...

- Embedded EDI into our 2030 strategy, acknowledging that it is one of the core areas where we want to step up our efforts and impact.
- Focused on achieving a greater gender balance in senior role equality. Currently, 50% of our Trustees and our senior leaders identify as women.
- Reflected, analysed, and identified areas in need of improvement. This includes setting out plans to bring about change: such as working to achieve greater diversity in our workforce including our work with organisations such as Full Colour.
- Recognised we need to become more transparent and accountable. We now actively publish information on our EDI commitment and progress through our communication channels including our Annual Report.
- Collaborated with other conservation organisations to achieve meaningful change including signing up to the [WildLife Countryside Link ethnicity route map](#).
- Continued to reform our recruitment practises, by reviewing our current framework and exploring and trialling new processes.
- Reviewed and started the process of improving accessibility on our nature reserves.

**And we want to do so much more.**

## Dyma fyddwn yn ei wneud...

- Byddwn yn ddewr: yn gwrando, yn herio ac yn dysgu ar y cyd. Byddwn yn meithrin dealltwriaeth ymysg ein harweinwyr, ein gweithwyr a'n cefnogwyr ynghylch pam mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn bwysig i'n cenhadaeth.
- Byddwn yn glir am ein blaenoriaethau ac yn gwrando ar dystiolaeth. Byddwn yn parhau i fod yn fwy tryloyw ac atebol, gan gyhoeddi gwybodaeth drwy fentrau megis [The RACE Report](#).
- Byddwn bob tro yn cydweithio, yn gwerthfawrogi'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ac yn adeiladu arno, wrth i ni barhau â'n taith tuag at fod yn sefydliad sy'n wirioneddol gynhwysol.
- Rydym wedi ymroi i'r gwaith hwn. Ni fyddwn yn gadael neb ar ôl.

**Gallwn achub natur drwy bobl: pob person.**


---

## We will...

- We will be courageous: listening, challenging and learning together. We'll build an understanding in our leaders, workforce, and supporters as to why EDI matters to our mission.
- We will be clear about our priorities and led by evidence. We will continue to be more transparent and accountable, by publishing information through initiatives such as [the RACE report](#).
- We will always collaborate, value, and build on the work that is already happening as we continue our journey towards becoming a truly inclusive organisation.
- We're dedicated to this work. We won't leave anyone behind.

**We save nature through people: all people.**





Amddiffyn cynefinoedd, arbed rhywogaethau a helpu i ddod â'r argyfwng byd natur a hinsawdd i ben.

**Mae byd natur mewn argyfwng.**  
Cyda'n gilydd gallwn ei achub.

Protecting habitats, saving species and helping to end the nature and climate emergency.

**Nature is in crisis.**  
Together we can save it.

### Cadw mewn cysylltiad

Cadwch lygad ar y safbwyntiau, y newyddion, y digwyddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr RSPB yn eich cymuned leol.

### Prif Swyddfa

RSPB The Lodge, Potton Road, Sandy, SG19 2DL

### Stay connected

Keep up to date with the latest thinking, news, events, and information from the RSPB in your local community.

### Head Office

RSPB The Lodge, Potton Road, Sandy, SG19 2DL



@natures\_voice



@TheRSPB



@rspb\_love\_nature